Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol Adroddiad Blynyddol 2015-16

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol Adroddiad Blynyddol 2015-16

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 7 Gorffennaf 2016.

HC519

OGL

© Hawlfraint y Goron 2016

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ.

Print ISBN 9781474135078
Gwe ISBN 9781474135085

ID 24061647 07/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Rhagarweiniad | 2 |
| Ymwneud â'r Arglwydd Ganghellor a newidiadau deddfwriaethol/rheoleiddiol | 3 |
| Ystyriaethau ynghylch Gwaith Achos | 6 |
| Y strwythur penderfynu | 7 |
| Golwg Gyffredinol ar yr achosion a ariannwyd | 8 |
| Apeliadau | 9 |
| Atebolrwydd | 10 |
| Casgliad | 13 |

# Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ar gyfer 2015-16.

Swydd sydd wedi'i chreu o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (Deddf LASPO) yw swydd y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol. Mae'n canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Y Cyfarwyddwr sy'n llwyr gyfrifol am achosion unigol, gan sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn y maes hwn yn annibynnol ar y Llywodraeth.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud ar ran y Cyfarwyddwr, y penderfyniadau sydd wedi'u gwneud a'r prosesau a ddilynwyd.

Bûm yn cyflawni'r swydd hon ers rhoi Deddf LASPO ar waith ar 1 Ebrill 2013 tan 31 Mawrth 2016. Ar 1 Ebrill 2016, penodwyd Shaun McNally yn Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ac yn Brif Weithredwr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Eleni, cafwyd tri achos yn y Llys Apêl[1] sydd wedi cynnig mwy o eglurdeb ynghylch cymorth cyfreithiol sifil. Sonnir am y rhain yn fwy manwl yn yr adroddiad hwn. Yn gyffredinol, byddai'n ymddangos bod y cynllun cymorth cyfreithiol wedi dechrau cael ei draed dano ar ôl y newidiadau sylweddol a gyflwynwyd o dan Ddeddf LASPO ac rwy'n gobeithio y bydd hyn yn cynnig mwy o sefydlogrwydd ar gyfer y dyfodol. Serch hynny, rwy'n falch bod yr Asiantaeth wedi gallu ymaddasu i'r newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol y sonnir amdanynt yn y tudalennau a ganlyn ac yn ymrwymo i wella'r broses benderfynu o hyd er budd y system gyfiawnder drwyddi draw.



Matthew Coats
Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (1 Ebrill 2013 tan 31 Mawrth 2016) 30 Mehefin 2016

1 *R (ar gais Hawliau Menywod) v (1) Yr Arglwydd Ganghellor (2) Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder [2016] EWCA Civ 91; Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cyfreithiol v R (ar gais Sunita Sisangia) [2016] EWCA Civ 24; a'r (1) Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cyfreithiol (2) Yr Arglwydd Ganghellor v IS (parti gwarchodedig gan ei gyfaill cyfreitha y Cyfreithiwr Swyddogol) [2016] EWCA Civ 464*. Gwrandawyd yr achos olaf cyn 31 Mawrth 2016 a throsglwyddwyd y dyfarniad ar 20 Mai 2016.

# Rhagarweiniad

1. Penodir y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (y Cyfarwyddwr) gan yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 4 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (Deddf LASPO). Gwaith y Cyfarwyddwr yw penderfynu ynghylch darparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

2. Mae'r Cyfarwyddwr yn gweithredu'n annibynnol ar yr Arglwydd Ganghellor ac mae prosesau a strwythurau mewnol clir ar waith yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (yr Asiantaeth) i sicrhau bod yr annibyniaeth hon yn cael ei chynnal. Sonnir am y rhain yn fwy manwl yn yr adroddiad hwn.

3. Yn ymarferol, bydd llawer o'r swyddogaethau a gyflawnir gan y Cyfarwyddwr yn cael eu dirprwyo i'r Asiantaeth. Sefydlwyd yr Asiantaeth ar 1 Ebrill 2013 ac mae'n un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Digwyddodd hyn yn sgil dileu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Corff Cyhoeddus Anadrannol a noddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a oedd gynt wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â darparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

4. Bydd y Cyfarwyddwr yn cael cymorth Bwrdd yr Asiantaeth i sicrhau bod arferion cadarn ar waith i gynnal annibyniaeth y broses benderfynu ar gyfer caniatáu cymorth cyfreithiol.

5. Caiff yr un unigolyn gyflawni rôl y Cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth. Serch hynny, mae gwahanol drefniadau atebolrwydd ac adrodd ar waith ar gyfer y ddwy swyddogaeth. Tan 31 Mawrth 2016, Matthew Coats oedd yn dal y ddwy swydd. Ers 1 Ebrill 2016, Shaun McNally, a oedd tan hynny'n Gyfarwyddwr Rheoli Achosion, sy'n cyflawni'r ddwy swydd.

6. Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut mae'r Cyfarwyddwr wedi cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u hymddiried yn benodol iddo o dan Ddeddf LASPO dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar wahân, ac mae'r rheini'n ymdrin â chylch gwaith ehangach y sefydliad.

# Ymwneud â'r Arglwydd Ganghellor a newidiadau deddfwriaethol/ rheoleiddiol

7. O dan Ddeddf LASPO, mae'r Arglwydd Ganghellor yn gallu cyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r Cyfarwyddwr ynghylch sut y dylai gyflawni ei swyddogaethau, ond ni chaiff gyhoeddi canllawiau o'r fath ynghylch ceisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ogystal â gweithredu'n unol â Deddf LASPO a'r fframwaith rheoleiddio cysylltiedig.

8. Yn 2015-16, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor y dogfennau canllaw newydd a ganlyn:

- Guide to Determining Financial Eligibility for Certificated Work' a'r 'Guide to Determining Financial Eligibility for Controlled Work and Family Mediation'[2]. Roedd y dogfennau canllaw hyn yn rhestru'r prif elfennau y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr eu hystyried wrth benderfynu ynghylch cymhwysedd ariannol unigolyn i gael cymorth cyfreithiol sifil.

- 'Post-judgment Notice to Director of Legal Aid Casework (DLAC): *IS v DLAC and The Lord Chancellor*: ECF Guidance (non-inquests)'[3]. Roedd hyn yn ychwanegu at y canllawiau a oedd yn bodoli eisoes sef 'Lord Chancellor's Guidance on Exceptional Funding (Non-Inquests)' i adlewyrchu cyfraith achos berthnasol newydd y cyfeirir ati'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

- 'Note to the Director of Legal Aid Casework and Caseworkers' y dylai gweithwyr achos ystyried diddymu Rheolau'r Crwneriaid 1984 gan gynnwys rheol 43 o'r rheolau hynny ar 25 Gorffennaf 2013. Roedd a wnelo Rheol 43 ag argymhellion Crwneriaid ar ôl cwest er mwyn atal rhagor o farwolaethau. Disodlwyd y rheolau hyn gan Reoliadau'r Crwneriaid (Ymchwiliadau) 2013, lle y disodlwyd rheol 43 gan reoliad 28. Roedd y nodyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr a gweithwyr achos roi sylw i'r newid hwn wrth ystyried cais am ariannu cwest o dan adran 10(4) o Ddeddf LASPO.

9. Mae'r Arglwydd Ganghellor hefyd wedi diweddaru ei ganllawiau ers mis Ionawr 2015 (o dan adran 4 o Ddeddf LASPO):

- Er mwyn rhoi sylw i ddiwygiadau i'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Haeddiant) ym mis Gorffennaf 2015 a oedd yn diwygio'r categorïau ar gyfer rhagolygon o lwyddiant (gweler isod).

- Diweddarodd yr Arglwydd Ganghellor ei Ganllawiau Ariannu Eithriadol (Cwestiau) hefyd i adlewyrchu cyfraith achos berthnasol newydd gyda golwg ar achosion penodol a fyddai'n sbarduno'n awtomatig ddyletswydd weithdrefnol erthygl 2 ynglŷn â chynrychiolaeth mewn cwest.

- Mae'r Arglwydd Ganghellor hefyd wedi diweddaru'r Canllawiau Ariannu Eithriadol (Nid-Cwestau) i ystyried diweddariadau blaenorol i gyfraith achos.

2 Mae'r dogfennau hyn i'w gweld ar lein yn https://www.gov.uk/guidance/civil-legal-aid-means-testing

3 Mae'r ddogfen hon i'w gweld ar lein yn https://www.gov.uk/government/ publications/legal-aid-exceptional-case-funding-form-and-guidance

10. Mae'r fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol hefyd wedi newid fel a ganlyn:

- Diwygiwyd Atodlen 1 i Ddeddf LASPO gan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a Deddf Troseddau Difrifol 2015. Drwy hyn, ehangwyd cwmpas yr ariannu i gynnwys Gorchmynion Amddiffyn Menywod rhag Anffurfio Organau Rhywiol ac achosion sy'n codi yn sgil caethwasiaeth, gwaseidd-dra neu lafur dan orfodaeth neu orfodol.

- Yn sgil yr uchod, roedd gofyn gwneud newidiadau perthnasol i'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Haeddiant) 2013. Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith drwy Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Haeddiant) (Diwygio) 2015.

- Gwnaeth Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil a Throseddol (Diwygio) 2015 a ddaeth i rym hefyd ym mis Gorffennaf 2015 nifer o ddiwygiadau i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012, unwaith eto er mwyn rhoi sylw i'r diwygiadau i Ddeddf LASPO uchod. Roedd y rhain hefyd yn estyn ac yn egluro'r gofynion o ran tystiolaeth ar gyfer dioddefwyr masnachu pobl, trais domestig a cham-drin plant.

- Roedd Rheoliadau'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol Sifil a Throseddol (Diwygio) 2015 hefyd yn diwygio nifer o reoliadau cymorth cyfreithiol eraill i roi sylw i Ddeddf Anffurfio Organau Rhywiol Menywod 2003 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

- Daeth Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Gorchmynion Cyfrannu) (Diwygio) 2015 i rym ar 1 Mehefin 2015 ac roedd y rhain yn diwygio'r ffordd y cyfrifir cyfalaf at ddibenion gorchmynion cyfrannu.

- Drwy Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil a Throseddol (Diwygio) (Rhif 2) 2015, cyflwynwyd amrywiol ddiwygiadau i nifer o reoliadau cymorth cyfreithiol ac fe ddaeth y rhain i rym ym mis Hydref a mis Tachwedd 2015. Mân ddiwygiadau oedd y rhain ar ôl cyflwyno'r Contract Sifil Safonol newydd yn 2015 ac roeddent yn ymwneud â darparu cyngor, cymorth a chynrychiolaeth ym maes cymorth cyfreithiol troseddol. Cyflwynwyd diwygiadau hefyd yn sgil Rheolau'r Weithdrefn Droseddol 2015 ac oherwydd diddymu'r drefn ar gyfer traddodi neu drosglwyddo achosion i Lys y Goron ar gyfer treial drwy ran 4 o atodlen 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

- Roedd Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Haeddiant a Gwybodaeth am Adnoddau Ariannol) (Diwygio) 2015 yn diwygio'r diffiniad o achosion plant cyfraith breifat i gynnwys gorchmynion ar gyfer cyswllt ar ôl mabwysiadu o dan adran 51A o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn ogystal â diwygio gofynion ynglŷn ag asesu adnoddau ariannol.

- Roedd Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Haeddiant) (Diwygio) (Rhif 2) 2015 a ddaeth i rym ar 27 Gorffennaf 2015 yn diwygio'r maen prawf ynghylch rhagolygon

o lwyddiant ar ôl achos *IS (gan y Cyfreithiwr Swyddogol fel Cyfaill Cyfreitha) v (1) Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cyfreithiol (2) Yr Arglwydd Ganghellor [2015] EWHC 1965* (o hyn allan 'IS'), y cyfeirir ato'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ym mharagraff 49.

11. Mae diwygiad yr Arglwydd Ganghellor i'r meini prawf haeddiant [Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Haeddiant) (Diwygio) (rhif 2) 2015] y cyfeirir ato uchod yn berthnasol i Ariannu Achosion Eithriadol a hefyd i geisiadau o fewn y cwmpas ym mhob un o gategorïau'r gyfraith.

12. Roedd y rheoliadau'n cyflwyno categori newydd o ragolygon o lwyddiant, sef 'gwael iawn' ar gyfer rhagolygon o lwyddiant sy'n is nag 20%. Mae rhagolygon 'gwael' bellach yn golygu rhagolygon o lwyddo sy'n fwy nag 20% ond yn llai na 50%. Diwygiwyd y meini prawf cyffredinol ar gyfer haeddiant a'r categorïau hynny hefyd lle y defnyddid meini prawf arbennig ar gyfer haeddiant lle'r oedd gofyn cynnal prawf 'rhagolygon o lwyddiant'. Gynt roedd yn ofynnol roedd gofyn i'r rhagolygon fod yn gymedrol o leiaf.

13. O dan y meini prawf diwygiedig hyn, bydd achosion y penderfynwyd bod ganddynt ragolygon 'gwael iawn' bob tro'n cael eu gwrthod heb eu hystyried rhagor. Os asesir bod y rhagolygon yn 'ffiniol' neu'n 'wael' yna rhaid i'r Cyfarwyddwr benderfynu:

(a) a oes angen i'r Cyfarwyddwr bennu bod y maen prawf perthnasol ar gyfer 'rhagolygon o lwyddo' serch hynny wedi'i gyflawni er mwyn peidio â mynd yn groes i hawliau'r ceisydd o dan y Confensiwn neu unrhyw rai o hawliau'r ceisydd i gael gwasanaethau cyfreithiol sy'n hawliau gorfodadwy yn yr Undeb Ewropeaidd; neu

(b) a yw'n briodol i'r Cyfarwyddwr benderfynu bod y maen prawf 'rhagolygon o lwyddo' wedi'i gyflawni, o dan amgylchiadau penodol yr achos, gan roi sylw i unrhyw risg y byddai methu â gwneud penderfyniad fel hyn yn doramod o'r fath.

Mae'r dulliau i awdurdodi rheoliadau ar gyfer meini prawf haeddiant a rheoliadau gweithdrefnau wedi'u diwygio hefyd fel nad oes gan ddarparwyr bellach swyddogaethau dirprwyedig lle bydd y rhagolygon o lwyddo'n cael eu hasesu gan y darparwr fel rhai 'ffiniol' neu 'wael'. Rhaid i'r holl benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud gan y Cyfarwyddwr. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch Cynrychiolaeth Gyfreithiol Reoledig.

14. Digwyddodd newidiadau hefyd yn 2015-16 gyda golwg ar y gofynion ynghylch tystiolaeth ar gyfer achosion teulu cyfraith breifat. Dim ond lle bydd y mater yn ymwneud â thrais domestig neu gam-drin plant o hyd y bydd arian ar gyfer achosion teulu cyfraith breifat ar gael, ac mae angen darparu tystiolaeth benodol cyn y gellir caniatáu'r ariannu.

15. Ym mis Ebrill 2014, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, cyflwynwyd gofynion diwygiedig ar gyfer tystiolaeth er mwyn ei gwneud yn haws cael gafael ar y dystiolaeth angenrheidiol. Fel y nodir uchod, cafwyd rhagor o ddiwygiadau i'r gofynion ynghylch

# Ystyriaethau ynghylch gwaith achos

tystiolaeth ym mis Gorffennaf 2015 gyda golwg ar geisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol ar gyfer y gwrandawiad terfynol lle bydd gan y cleient dystysgrif eisoes ar gyfer Help Teulu (Uwch) yn yr un mater. Mae'r newid hwn yn golygu na fydd gofyn i'r cleient ddarparu rhagor o dystiolaeth, ni waeth a yw'r darn gwreiddiol o dystiolaeth yn dal yn ddilys ai peidio. Nid yw'r diwygiad hwn yn berthnasol i unrhyw gais am ychwanegu achos newydd at y dystysgrif.

16. Ar 18 Chwefror 2016, trosglwyddodd y Llys Apêl ei ddyfarniad yn achos *R (ar gais Hawliau Menywod) v (1) yr Arglwydd Ganghellor (2) Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder [2016] EWCA Civ 91*, sef apêl yn erbyn penderfyniad yr Uchel Lys fod y gofynion ynghylch tystiolaeth yn gyfreithiol. Roedd yr apêl yn rhannol lwyddiannus. Daliai'r Llys Apêl mai bwriad Deddf LASPO oedd y dylai cymorth cyfreithiol fod ar gael mewn achosion teulu cyfraith breifat ar gyfer y rhan fwyaf helaeth o ddioddefwyr trais domestig. Roedd y gofyniad bod tystiolaeth ynglŷn â thrais domestig yn gorfod cael ei dyddio o fewn cyfnod o 24 mis cyn gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn eithrio gormod o ddioddefwyr o'r fath. Gwnaeth y Llys orchymyn yn dileu pob cyfeiriad at y terfyn amser 24 mis yn y ddeddfwriaeth. Roedd y gorchymyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor ddiwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu i ymgeiswyr ddibynnu ar dystiolaeth sy'n dangos trais domestig ar ffurf cam-drin ariannol. Gosodwyd deddfwriaeth ar 21 Ebrill 2016 i adlewyrchu'r gorchymyn hwn a daeth i rym ar 25 Ebrill 2016.

17. Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cymorth cyfreithiol a osodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson, parhawyd i ddarparu cyngor a hyfforddiant i bob gweithiwr achos yn yr Asiantaeth gan eu teilwra yn ôl rôl pob tîm gwaith achos.

18. Er nad oes gan yr Arglwydd Ganghellor swyddogaeth yng nghyswllt penderfyniadau ariannu unigol, trefnir cyfarfod blynyddol i ymdrin â chynnwys yr adroddiad hwn, y themâu sydd wedi codi gyda golwg ar rôl y Cyfarwyddwr, y cynllun cymorth cyfreithiol a'r gwersi a ddysgwyd. Eleni, cynhelir y cyfarfod ar ôl gosod yr adroddiad.

19. Mae'r newidiadau i'r cynllun cymorth cyfreithiol sifil a gyflwynwyd gan Ddeddf LASPO yn 2013 yn arwyddocaol. Fel oedd yn wir y llynedd a'r flwyddyn gynt, mae heriau sylweddol pellach wedi bod i'r cynllun ariannu cymorth cyfreithiol.

20. Ers y llynedd, roedd y cynllun Ariannu Achosion Eithriadol a oedd yn ymdrin ag achosion a fyddai fel rheol y tu allan i gwmpas cymorth cyfreithiol ond sy'n cyflawni'r meini prawf 'hawliau dynol' yn Neddf LASPO yn rhywbeth a oedd yn ffocws allweddol i'r her gyfreithiol yn achos IS (uchod). Gwrth-drowyd penderfyniad Mr Ustus Collins gan y Llys Apêl, yr adroddwyd yn ei gylch yn *(a) Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (2)yr Arglwydd Ganghellor v IS (parti gwarchodedig gan ei gyfaill cyfreitha Y Cyfreithiwr Swyddogol) [2016] EWCA Civ 464*. Penderfynodd y Llys Apêl hefyd o blaid y Cyfarwyddwr yn *Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol v R (ar gais Sunita Sisangia) [2016] EWCA Civ 24* ( 'Sisangia' o hyn ymlaen).

# Y strwythur penderfynu

Trafodir y ddau achos yn fwy manwl yn yr adran 'Cyfreitha' isod.

21. Yn adroddiad y llynedd, cyfeiriwyd at drosglwyddo gwaith troseddol oddi wrth Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM - un o asiantaethau gweithredol eraill y Weinyddiaeth Cyfiawnder) i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau. Er inni weld mân amrywiadau, nid oes dim newid sylweddol wedi bod yng nghanran y ceisiadau sydd wedi'u caniatáu, neu, lle'r oedd hynny'n briodol, yr apeliwyd yn eu herbyn, ers trosglwyddo'r gwaith.

22. Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn annibynnol ac yn gyson, mae gan yr Asiantaeth strwythur trefniadaethol cadarn ac iddo nifer o fecanweithiau adolygu. Darperir cyngor cyfreithiol ar gyfer y Cyfarwyddwr gan y Tîm Cyfreithiol Canolog gyda chyfreithwyr wedi'u cydleoli o Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, sy'n gweithredu ar ran yr Asiantaeth yn unig.

23. Gweithwyr achos fydd yn gwneud penderfyniadau am achosion unigol yng nghyfarwyddiaeth Rheoli Achosion yr Asiantaeth gan drosglwyddo'r achos i lefel uwch fel sy'n briodol. Mae gofyn cael cymeradwyaeth Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer achosion uchel eu proffil (er enghraifft pan fydd cais wedi'i wneud am ariannu ar gyfer y Llys Apêl ar ôl cael cyngor cyfreithiol yn gyntaf gan y Tîm Cyfreithiol Canolog, yn unol â'r Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer Adrodd a Chyfeirio Achosion Uchel eu Proffil wrth Reoli Achosion Sifil.

24. Mae'r gyfarwyddiaeth Rheoli Achosion wedi'i rhannu'n dri grŵp, a phob un ohonynt yn cael ei rheoli gan Ddirprwy Gyfarwyddwr:

- Rheoli Achosion Sifil
- Rheoli Achosion Troseddol
- Penderfyniadau ynghylch Ariannu Achosion Sifil ac Achosion Eithriadol Costus.

25. O fewn y grŵp Rheoli Achosion Sifil mae timau ar wahân ar gyfer haeddiant, modd a bilio, a hefyd mae yna ddau dîm penodol i ymdrin â gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae'r timau wedi coleddu gweithio digidol ac wedi addasu eu prosesau ac felly erbyn hyn maent y prosesu ceisiadau digidol yn gyflymach.

26. Yn y grŵp rheoli Achosion Troseddol, gan fod y gwaith i gyd bellach wedi'i drosglwyddo o GLlTEM, mae'r Tîm Ceisiadau Troseddol yn disgwyl delio ag oddeutu 500,000 o geisiadau y flwyddyn, gan anelu at gwblhau 90% o'r ceisiadau hyn o fewn dau ddiwrnod.

27. Maes newydd y mae'r grŵp Rheoli Achosion troseddol bellach yn ymdrin ag ef yw caniatáu cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer achosion dirmyg sifil i ddiffynyddion yr honnir eu bod wedi torri telerau gorchymyn sifil ac sydd mewn perygl o gael eu carcharu oherwydd hynny. Dyfernir Contractau Achosion Unigol i gwmnïau sydd wedi'u cyfarwyddo yn y mater sifil ond heb gontract troseddol er mwyn sicrhau dilyniant yn y gynrychiolaeth mewn materion sifil a throseddol sy'n gysylltiedig â'i gilydd.

28. Mae'r tîm Troseddau Costus a'r Tîm Taliadau Cenedlaethol bellach yn rhan o'r gwaith Rheoli Achosion Troseddol ehangach a'r cynllun yw y byddant yn cael eu cyfuno a'u cydblethu dros y misoedd nesaf, gan greu

# Golwg gyffredinol ar yr achosion a ariannwyd

un tîm cyfun tua diwedd 2016. Bydd y tîm cyfun yn ymdrin ag Achosion troseddol Costus Iawn, yn gwneud gwaith paratoi arbennig, yn asesu hawliadau dan y Ddeddf Enillion yn sgil Troseddu a hawliadau o'r Cronfeydd Canolog.

29. Bydd y grŵp Achosion Sifil Costus yn ymdrin â'r achosion sifil drutaf a mwyaf cymhleth y mae'r Asiantaeth yn eu hariannu. Mae staff y tîm hwn yn cynnwys cyfran fwy o gyfreithwyr i gefnogi penderfyniadau effeithiol ynghylch haeddiant. Mae cyfran uwch o achosion sy'n cael eu rheoli gan y grŵp Achosion Costus yn rhai uchel eu proffil ac felly'n agored i'r broses trosglwyddo i lefel uwch a grybwyllwyd uchod.

30. Sefydlwyd y grŵp Ariannu Achosion Eithriadol gan yr Asiantaeth i brosesu ceisiadau am Ariannu Achosion Eithriadol o dan adran 10 o Ddeddf LASPO. Mae'r cynllun Ariannu Achosion Eithriadol yn darparu arian ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol nad ydynt fel rheol o fewn cwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol, ond lle byddai darparu cymorth cyfreithiol yn groes i hawliau, neu lle byddai risg sylweddol o fynd yn groes i hawliau'r unigolyn o dan:

(a) y Confensiwn (o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998); neu

(b) unrhyw hawliau sydd gan yr unigolyn i gael gwasanaethau cyfreithiol sy'n hawliau gorfodadwy yn yr Undeb Ewropeaidd.

31. Ers y dyfarniad yn IS a'r newidiadau rheoleiddiol yn sgil hynny y cyfeiriwyd atynt uchod, ystyriodd y tîm Ariannu Achosion Eithriadol hefyd yr holl achosion lle'r oedd cais wedi'i wneud am gymorth cyfreithiol o dan amgylchiadau lle'r oedd y rhagolygon o lwyddo'n 'ffiniol' neu'n 'wael' a bod canfyddiad o'r fath wedi dylanwadu ar y penderfyniad. Mae prosesau sicrhau a rheoli ansawdd cadarn ar waith o hyd ar gyfer achosion y mae'r tîm hwn yn eu hystyried a'r rheini'n cynnwys cyngor gan y Tîm Cyfreithiol Canolog fel sy'n briodol.

32. Mae'r Asiantaeth yn ymdrin â nifer sylweddol o geisiadau am gymorth cyfreithiol ar draws y gwahanol gategorïau o'r gyfraith. Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi ystadegau swyddogol am nifer y ceisiadau yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol. Cyhoeddir hyn bob chwarter, ac fe gyhoeddwyd yr ystadegau ar gyfer y cyfnod tan ddiwedd mis Mawrth 2016 ar lein ar 30 Mehefin 2016[4]. Yn benodol, mae'r ystadegau ynglŷn â'r nifer a ariannwyd yng nghyswllt y gofynion tystiolaeth ar gyfer trais domestig y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u cynnwys yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol.

## Ariannu Achosion Eithriadol

33. Mae'r ystadegau swyddogol ar gyfer ceisiadau a phenderfyniadau Ariannu Achosion Eithriadol hefyd wedi'u cynnwys yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol. Adeg drafftio'r ddogfen hon, nid yw nifer y ceisiadau i bob golwg wedi newid yn ddramatig. Cyfreithwyr sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r ceisiadau o hyd ond mae canran fach yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gan ymgeiswyr.

4 Gweler https://www.gov.uk/government/collections/legal-aid-statistics

# Apeliadau

34. Mae'r tîm Ariannu Achosion Eithriadol yn ystyried achosion fesul un, yng ngoleuni'r ffeithiau, y gofynion statudol ar gyfer ariannu a chan roi sylw i'r canllawiau ar gyfer Ariannu Achosion Eithriadol a chyfraith achos. Er bod nifer y ceisiadau a gafwyd wedi aros yn gymharol gyson ar ôl IS, mae nifer yr achosion a ganiatawyd wedi cynyddu.

35. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o geisiadau am Ariannu Achosion Eithriadol o hyd â mewnfudo neu achosion teulu ac ariannu ar gyfer cwestau.

36. Os bydd unigolyn yn anghytuno â phenderfyniad y Cyfarwyddwr nad yw'n gymwys i gael Cynrychiolaeth Gyfreithiol neu Help i'r Teulu (Uwch), caiff wneud cais i Ddyfarnwr Ariannu Annibynnol ailystyried y penderfyniad hwnnw. Os cais am Ariannu Achos Eithriadol yw'r cais neu os yw'r penderfyniad ar ran y Cyfarwyddwr yn dweud nad yw'r achos o fewn y cwmpas i'w ariannu, dim ond hawl i adolygiad mewnol fydd gan y ceisydd. Mae ystadegau ynglŷn â nifer yr ystadegau a chanlyniadau apelau wedi'u cynnwys ym mhob rhifyn blynyddol o'r bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol.

37. Mae penderfyniad y Dyfarnwr Ariannu Annibynnol ynglŷn â materion penodol yn cyfrwymo'r Cyfarwyddwr. Sef: unrhyw asesiad o ragolygon yr achos, a yw'r mater yn eithriadol o bwysig i'r cleient, cymhareb cost a budd yr achos a rhyddhau neu ddiddymu ar sail ymddygiad y cleient. Bydd argymhellion eraill yn cael eu cyfeirio yn ôl at y Cyfarwyddwr iddo'u hailystyried.

## Y Panel

38. Mae Dyfarnwyr Ariannu Annibynnol yn aelodau o Banel Adolygu Apelau Ariannu a Chostau. Nid yw aelodau'r panel yn gyflogedig gan yr Asiantaeth a byddant yn gweithredu'n annibynnol.

39. Mae'r Panel yn cynnwys 141 o gyfreithwyr a bargyfreithwyr sy'n cael eu dethol ar sail eu gwybodaeth gyfreithiol a'u harbenigedd i benderfynu ynghylch apelau. Bydd effeithlonrwydd ac ansawdd eu penderfynu'n cael eu monitro'n rheolaidd a bydd yr Asiantaeth yn cyfarfod â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeiryddion bob chwarter i adolygu'r llwyth gwaith, prydlondeb ac ansawdd y penderfynu gan aelodau'r panel ac i gasglu pwyntiau dysgu er mwyn i staff yr Asiantaeth weithredu arnynt.

40. Hefyd, ceir Panel Adolygu Trefniadau Rheoli Arbennig sy'n cael eu ffurfio o dri aelod o'r Panel Adolygu Apelau Ariannu a Chostau a bydd hwn ystyried apelau sy'n berthnasol i achosion costus penodol ac achosion mwy cymhleth eraill.

41. Mae'r Asiantaeth ar hyn o bryd wrthi'n recriwtio panel newydd ar gyfer 2016-19, gan weithio gyda'r Panel Penodiadau Cyhoeddus i greu proses dethol gymesur, agored a chynhwysol. Nod yr Asiantaeth yw recriwtio panel o 100 o aelodau i adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y ceisiadau am arian.

42. Nid oes newid wedi bod yn y ffordd y mae swyddogaethau'r Cyfarwyddwr yn dal i fod yn agored i graffu cyhoeddus. Mae'r mecanweithiau sydd ar waith i ganiatáu craffu ar waith yr Asiantaeth ac i bartïon sydd â budd yn y broses ddal y Cyfarwyddwr yn atebol wedi'u hesbonio isod.

# Atebolrwydd

## Cwestiynau seneddol a cheisiadau rhyddid gwybodaeth

43. Caiff Aelodau Seneddol ac Arglwyddi gyflwyno cwestiynau seneddol yn gofyn am y gwaith y mae'r Cyfarwyddwr yn ei wneud gyda golwg ar achosion neu unigolion. Yn yr un modd, caiff y cyhoedd gyflwyno ceisiadau am wybodaeth a gedwir gan yr Asiantaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

44. Yn 2015-16, cafodd yr Asiantaeth 7 cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ni chafwyd dim cwestiynau seneddol yn ymwneud yn benodol â'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol.

45. Mae gwybodaeth am gleient cymorth cyfreithiol unigol yn debygol o fod yn ddata personol ac ni ellir ond ei rhyddhau os bydd yr achos yn cyflawni'r meini prawf a bennir yn Neddf Diogelu Data 1998.

## Cwynion

46. Bydd yr Asiantaeth yn ymchwilio'n drwyadl i bob cwyn a gaiff, gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno dwy haen. Bydd y gŵyn gychwynnol yn rhoi'r cyfle i'r Asiantaeth adolygu sut yr ymdriniwyd â'r mater ar lefel leol a chywiro'r sefyllfa os oes modd. Os na fydd achwynydd yn fodlon ar yr ymateb cychwynnol, gall drosglwyddo'i gŵyn i dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Canolog yr Asiantaeth ac wedyn yn y pen draw i'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd drwy gyfrwng eu AS lleol.

47. Nid yw'r Asiantaeth yn cofnodi cwynion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Cyfarwyddwr yn benodol. Serch hynny, mae cyfran sylweddol o'r holl gwynion a gaiff yr Asiantaeth yn berthnasol i achosion unigol a phenderfyniadau gwaith achos.

## Cyfreitha

48. Llwybr arall y gellir ei dilyn i wneud iawn a dal y Cyfarwyddwr yn atebol yw cyfreitha yn y llysoedd. Yn benodol, gellir herio penderfyniadau'r Cyfarwyddwr drwy adolygiad barnwrol. Yn ystod 2015-16, cafwyd dau achos arbennig o bwysig, ac fe benderfynwyd ynghylch y ddau yn y pen draw gan y Llys Apêl a hynny o blaid y Cyfarwyddwr.

49. Roedd adroddiad y llynedd yn cyfeirio at achos R (ar gais Teresa Gudanaviciene ac Eraill) (Hawlwyr/ Atebwyr) v (1) Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (2) Yr Arglwydd Ganghellor (Diffynyddion / Apelyddion) a Chymdeithas y Groes Goch (Cyfryngwr) [2014] EWCA Civ 1622, a oedd yn herio Canllawiau Ariannu Achosion Eithriadol yr Arglwydd Ganghellor. IS oedd un o'r penderfyniadau a heriwyd yn y penderfyniad hwnnw ac fe'i hariannwyd gan y Cyfarwyddwr ar ôl penderfyniad y Llys Apêl. Serch hynny, roedd yr achos hwnnw'n ceisio herio'r ffordd y gweithredai'r cynllun Ariannu Achosion Eithriadol yn ei grynswth, gan gynnwys y rheoliadau ynglŷn â haeddiant a'r canllawiau a bennwyd gan yr Arglwydd Ganghellor. Ar 15 Gorfennaf 2015, penderfynodd yr Anrhydeddus Mr Ustus Collins o blaid yr hawlydd ar bob un o dair sail yr her, gan fynnu:

(i) bod cynllun y cynllun Ariannu Achosion Eithriadol, fel yr oedd

yn cael ei weithredu, yn peri risg annerbyniol y byddai unigolyn yn methu â chael cymorth cyfreithiol ac y byddai methu â darparu'r cymorth yn groes i hawliau'r unigolyn hwnnw;

(ii) bod Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Haeddiant) yn anghyfreithlon; a

(iii) bod Canllawiau Ariannu Achosion Eithriadol yr Arglwydd Ganghellor (nid Cwestau) yn anghyfreithlon – *[2015] EWHC 1965*.

Apeliwyd yn llwyddiannus yn erbyn y penderfyniad hwnnw a throsglwyddwyd y dyfarniad ar 20 Mai 2016 - [2016] EWCA Civ 464. Tra'n disgwyl canlyniad yr apêl, cyflwynwyd nifer o newidiadau a rhoddwyd nifer o brosesau ar waith i weithredu dyfarniad yr Uchel Lys. Cyfeiriwyd at rai o'r newidiadau hynny uchod; dyma rai eraill:

- Gellir ad-dalu darparwyr cymorth cyfreithiol yn awr ar gyfer costau gwneud cais.
- Symleiddiwyd y ffurflen gais am gymorth cyfreithiol.
- Os bydd staff yr Asiantaeth yn cytuno bod ceisiadau'n rhai brys, gweithredir arnynt o fewn 5 niwrnod.
- 'Ni roddir 'barn ragarweiniol' am geisiadau bellach ers diwygio'r ffurflen gais ar gyfer achosion nad ydynt yn gwest.
- Diwygiwyd y Pecyn Darparwyr gyda golwg ar y newidiadau a oedd yn eu tro'n cael eu hadlewyrchu yn y Canllawiau Asesu Costau.
- Cyn penderfyniad yr apêl, ystyriodd y tîm Ariannu Achosion Eithriadol bob cais o fewn cwmpas lle'r oedd y rhagolygon o lwyddo yn 'ffiniol' neu'n wael'. Yng ngoleuni'r apêl lwyddiannus, mae'r Asiantaeth wedi cadarnhau na fydd angen gwneud hyn rhagor.

Bydd manylion unrhyw newidiadau pellach yn yr adran cymorth cyfreithiol ar www.gov.uk ac yn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol y flwyddyn nesaf.

50. Yr ail achos, y cyfeiriwyd ato hefyd yn adroddiad y llynedd, yw achos Sisangia. Roedd a wnelo'r achos hwn â dehongli paragraff 21 o ran 1 o atodlen 1 i Ddeddf LASPO sy'n dod ag achosion sy'n cynnwys 'awdurdod cyhoeddus yn camddefnyddio'i safle neu ei bwerau' o fewn cwmpas. Roedd yr Uchel Lys wedi dweud bod gofynion paragraff 21(4) yn ddiffiniad cynhwysfawr o gamddefnyddio pŵer neu safle, ac felly y byddai unrhyw weithred fwriadol (neu anonest) gan awdurdod cyhoeddus a oedd yn achosi niwed y gellid yn rhesymol ei ragweld i rywun arall yn dod o fewn y diffiniad hwn.

51. Roedd y Llys Apêl yn derbyn dadl y Cyfarwyddwr bod camddefnyddio safle neu bŵer yn gysyniad barnwrol cydnabyddedig, sydd, fel llawer o gysyniadau eraill mewn cyfraith gyhoeddus, yn hyblyg a hefyd yn perthyn i gyd-destun penodol. Effaith y dyfarniad yw ei bod yn rhaid i unrhyw weithred neu anwaith honedig anghyfreithlon gan awdurdod cyhoeddus fod yn fwy na bwriadol er mwyn i gais fod

o fewn cwmpas o dan baragraff 21 rhan 1 o atodlen 1 i Ddeddf LASPO. Rhaid i'r Cyfarwyddwr ystyried y cwestiwn pwysicaf sef a oedd y weithred neu'r anwaith yn enghraifft o gamddefnyddio safle neu bŵer. Serch hynny, roedd y Llys Apêl yn cydnabod y gellid ystyried ceisiadau ar y sail amgen, sef bod yn groes hawliau dynol honedig mewn ffordd sylweddol, o dan baragraff 22 rhan 1 o atodlen 1 i Ddeddf LASPO. At hynny, byddai unrhyw hawliad am iawndal a ddygid yn briodol o fewn adolygiad barnwrol yn dod o fewn cwmpas o dan baragraff 19 o'r atodlen.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

52. Mae'r Asiantaeth yn gorfod cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

53. Yn ystod 2015-16 parhaodd yr Asiantaeth i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff yr Asiantaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gofyn i'r staff i gyd gwblhau cyrsiau Dysgu'r Gwasanaeth Sifil ar Hanfodion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Thuedd Anymwybodol. Disgwylir hefyd i bob rheolwr llinell gwblhau cwrs ychwanegol ar Ymwybyddiaeth o Anabledd. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd gweithdai Ymwybyddiaeth o Amrywiaeth ar 13 o'n 16 safle, a oedd cynnwys adran am ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

54. Mae'r Asiantaeth yn gofyn i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol roi rhywfaint o wybodaeth bersonol inni am gydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r Asiantaeth i ddeall yn well beth yw anghenion ceiswyr posibl am gymorth cyfreithiol ac i lunio ystadegau am amrywiaeth.

55. Mae'r Cyfarwyddwr wedi adolygu'r wybodaeth am gyfle cyfartal a ddarparwyd gan dderbynwyr cymorth cyfreithiol yn ystod tri chwarter cyntaf 2015-16, i fonitro i ba raddau y mae'r Asiantaeth yn dal i ddarparu ar gyfer poblogaeth amrywiol Cymru a Lloegr. Fel yr oedd yn wir y llynedd, nid oes dim newidiadau sylweddol wedi bod ers rhoi Deddf LASPO ar waith. Cyhoeddodd yr Asiantaeth ystadegau ynglŷn ag amrywiaeth cleientiaid cymorth cyfreithiol dros y cyfnod 2015-16 fel rhan o fwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol a gyhoeddwyd ar 30 Mehefin 2016, a bydd y Cyfarwyddwr yn dal i adolygu'r wybodaeth hon dros y flwyddyn nesaf.

# Casgliad

56. Fel y dywedwyd yn y rhagair, mae'n ymddangos bod y cynllun bellach yn dechrau sefydlogi ac mae'r Cyfarwyddwr yn falch o weld bod y Llys Apêl wedi cytuno â'i safbwynt ar ddau benderfyniad pwysig. Mae'r ymrwymiad i drefn benderfynu sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a gwneud penderfyniadau safon yn parhau ac mae ein Cyfarwyddwr newydd yn cytuno â'r ymagwedd honno.

57. Mae copi o'r adroddiad hwn wedi cael ei anfon at yr Arglwydd Ganghellor yn unol ag adran 7(3) o Ddeddf LASPO. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.

ISBN 978-1-4741-3507-8
9 781474 135078